

Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynadledda ar ddydd Iau, 21 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Cynghorwyr Shelley Childs, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a John Roberts

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion yn bresennol: Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad, Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thwyddedu, Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu, Mr Edward Dumbrill. Swyddog Amgylcheddol Arbenigol, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democraidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Democraidd a Safonau

(2:00pm - 2:15pm)

1 Ymddiheuriadau
Dim.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Dim.

3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 05 Hydref 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2023 fel rhai cywir.

Materion yn codi
Dim.

4 Diweddariad Cyffredinol
Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad diweddariad cyffredinol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn adolygu a thrafod cynnydd a chyflwyniad y Ddeddf Trwyddedu 2003, ynghyd ag unrhyw faterion ategol sy'n codi o gyfrifoldebau sydd o ddyletswydd i'r Pwyllgor hwn yn benodol. Mae materion ategol o'r fath yn cynnwys Deddf Gamblo 2005.

Darparwyd y diweddariad canlynol:-

- Ceisiadau lle roedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)
- Ymgynghoriad - Ymestyn oriau Trwyddedu yn ystod gemau pêl-droed UEFA 2024

- Canllawiau Adran 182 diwygiedig
 - Canllawiau Statudol – Sbeicio Diod
 - Sbeicio Diod

Yn dilyn cwestiynau ar gynnwys yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar
Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2024**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____